# Adroddiad ar Hygyrchedd Amserlenni Rhaglenni Electronig (EPG) 2022/23

Adroddiad cynnydd a’r dull gweithredu ar gyfer hygyrchedd yn y dyfodol

Dyddiad cyhoeddi: 13 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

1.1 Mae cynulleidfaoedd anabl, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu clyw a'u golwg, yn aml yn wynebu anawsterau penodol wrth ddefnyddio amserlenni rhaglenni teledu (a elwir yn amserlenni rhaglenni electronig neu'n 'EPG') i ddod o hyd i raglenni, a'u gwylio.

1.2 Mae'r Cod EPG yn nodi disgwyliad Ofcom o ran y ffaith y dylai EPG fod yn hygyrch i bob cynulleidfa, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau. Bob blwyddyn, mae Ofcom yn cyhoeddi adroddiad ar y cynnydd a wnaed gan ddarparwyr EPG i sicrhau bod eu EPG yn fwy hygyrch.

### Adroddiad EPG: Beth rydym wedi'i ganfod – yn gryno

Ers cyhoeddi ein hadroddiad Hygyrchedd EPG diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr EPG wedi gwella neu ehangu argaeledd nodweddion hygyrchedd a nodir yn y Cod EPG.

**Sky a Virgin Media**

Ers ein hadroddiad diwethaf mae Sky a Virgin Media wedi cyflwyno nodweddion hygyrchedd newydd. Mae Sky bellach yn cynnig **tair o'r pedair nodwedd hygyrchedd sydd wedi'u nodi yn y Cod EPG; mae Virgin Media yn cynnig pob un.** Mae Sky a Virgin Media hefyd wedi ehangu, neu mae ganddynt gynlluniau i ehangu, argaeledd nodweddion hygyrchedd ar draws eu hystod lawn o gynnyrch teledu (gan gynnwys dyfeisiau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cod EPG).

**Everyone TV (Freeview a Freesat)**

Mae Everyone TV wedi ehangu argaeledd nodweddion hygyrchedd ar Freeview ac wedi ymdrechu i wneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau hygyrchedd sydd ar gael ar ddyfeisiau Freeview Play. **Mae'r pedair nodwedd hygyrchedd ar gael ar EPG Freeview drwy'r Amserlenni Teledu Hygyrch (ATVG).**

Mae'r nodweddion hygyrchedd sydd ar gael ar Freesat yn dal i lusgo y tu ôl i Freeview. **Mae un nodwedd hygyrchedd ar gael ar rai dyfeisiau Freesat; mae nodwedd hygyrchedd ychwanegol ar gael yn rhannol ar bob dyfais Freesat a phob teledu sy'n cynnal Freesat.** Rydym yn cydnabod yr heriau y mae Everyone TV wedi'u hwynebu a byddwn yn disgwyl gweld rhagor o gynnydd erbyn yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

**YouView**

Ers ein hadroddiad diwethaf nid yw dyfeisiau YouView wedi newid. **Mae dwy nodwedd hygyrchedd ar gael ar ddyfeisiau YouView.** Rydym yn deall nad yw YouView ar gael drwy unrhyw dderbynyddion teledu newydd a ddechreuodd ddatblygu ar ôl i'r Cod EPG gael ei ddiwygio yn 2018, ond rydym yn disgwyl i YouView ystyried y gofynion hygyrchedd mewn unrhyw ddatblygiadau neu ddiweddariadau cynnyrch yn y dyfodol.

## Y camau nesaf: Dyfodol hygyrchedd EPG

Rydym yn cydnabod bod cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys mewn amrywiol ffyrdd. Er mai dyma'r prif ddull o ganfod a chael gafael ar raglenni teledu, mae'r EPG yn dod yn fwyfwy yn rhan o ryngwynebau defnyddwyr sy'n integreiddio cynnwys o amrywiaeth o ffynonellau a thrwy dulliau darparu amrywiol.

Yn ail adran adroddiad EPG eleni, rydym yn adolygu sut mae ymddygiad cynulleidfaoedd yn newid yng ngoleuni gwasanaethau teledu newydd ac rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd dylunio gwasanaeth hygyrch er mwyn cefnogi cynulleidfaoedd anabl mewn tirwedd cyfryngau mwy tameidiog.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddiweddaru ein canllawiau Arferion Gorau ynghylch Hygyrchedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i'r canllawiau, gan gynnwys eu hehangu i gynnwys cyngor ar gyfer darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil ymysg cynulleidfaoedd anabl er mwyn cyfrannu ymhellach at ein penderfyniadau terfynol ynglŷn â'r canllawiau.